


# GREEN GEN TYWI TEIFI

Llyfryn ymgynghoriad Ionawr 2024

**Green Gen Tywi Teifi – cysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd**

GREEN GEN CYMRU

www.greengentowyteifi.com

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Amdanom ni | 3 |
| Mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd | 4-5 |
| Yr angen am newid | 6 |
| Gwynt ar y tir yn y Canolbarth | 7 |
| Prosiect Tywi Teifi | 8-9 |
| Pam peilonau? | 10 |
| Ein hymgynghoriad | 11 |
| Cronfa budd cymunedol Ynni Bute | 12-13 |
| Ein llwybr dewisol | 14-15 |
| Adran 1 : Lan Fawr i Lambed | 16-17 |
| Adran 2 : Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni | 18-19 |
| Adran 3 : Llanllwni i Alltwalis | 20-21 |
| Adran 4 : Alltwalis i Rydargaeu | 22-23 |
| Adran 5 : Rhydargaeu i Landyfaelog | 24-25 |
| Proses gynllunio a llinell amser y prosiect | 26 |
| Digwyddiadau ymgynghori | 27 |


**Mae Green Gen Cymru yn cynnig llinell uwchben 132kV newydd i gysylltu Parc Ynni Lan Fawr yng ngorllewin Cymru ag is-orsaf newydd y National Grid yng Nghaerfyrddin.**

Bydd llinell uwchben Tywi Teifi oddeutu 52km o hyd a bydd yn defnyddio peilonau ar uchder safonol o 27 metr. Bydd y cysylltiad newydd hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n effeithio ar ein tirweddau, bywoliaeth pobl a'n bywyd gwyllt drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gysylltu ynni gwyrdd â'r grid, yn barod i gyflenwi cartrefi a busnesau.

Mae'r llyfryn ymgynghori hwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prosiect, pam mae ei angen a manylion y llwybr a ffafrir. Edrychwn ymlaen at gael eich adborth ar ein cynigion a fydd yn hanfodol i'n helpu i ddatblygu'r prosiect.

# AMDANOM NI

Rydyn ni'n fusnes annibynnol sy'n tyfu'n gyflym sy'n cael ei ariannu 100% gan Grŵp Bute Energy a'i bartneriaid buddsoddi. Rydyn ni'n chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o greu rhwydwaith mwy cadarn a dibynadwy – gan ddarparu ar gyfer dyfodol lle bydd pob un ohonom yn dibynnu mwy ar drydan, wrth i ni symud oddi wrth nwy ac olew.



Mae gennym weledigaeth o Gymru iachach a chyfoethocach sy'n defnyddio cynhyrchu ynni fel pŵer cadarnhaol i'r byd, i Gymru, i gymunedau lleol – i'r genhedlaeth hon ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae Bute Energy yn cynnig portffolio o Barciau Ynni ac mae Green Gen Cymru yn eu cysylltu, gan ymateb i her newid yn yr hinsawdd drwy ddatblygu rhwydwaith trydan adnewyddadwy cryfach a mwy gwydn y mae mawr ei angen ar Gymru – gan ddosbarthu ynni glân a gwyrdd.

Mae potensial di-ben-draw i ynni adnewyddadwy yng Nghymru – yn enwedig o'r gwynt sy'n chwythu ar draws ein bryniau a'n mynyddoedd.

Ond mae'r ynni gwyrdd hwn yn cael ei ddal yn ardaloedd gwyntog Cymru, ac mae angen i ni sicrhau ei fod yn cyrraedd y cartrefi, yr ysbytai, yr ysgolion, y busnesau a'r cymunedau sydd ei angen. Bydd Green GEN Cymru yn diwallu'r angen hwn.

### Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol

Mae Green GEN Cymru yn gwneud cais i Ofgem am drwydded drydan fel Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu Annibynnol (IDNO), gyda chynlluniau i adeiladu a gweithredu rhwydwaith trydan ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd. Bydd ein cysylltiadau'n sicrhau bod ynni adnewyddadwy yn cael ei gludo i'n cartrefi, ein hysbytai, ein hysgolion, ein busnesau a'n cymunedau.

# MYND I'R AFAEL Â'R ARGYFWNG HINSAWDD

Mae heriau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod yn helaeth gan Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r ddau gyngor wedi datgan argyfyngau hinsawdd, gan adrodd bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld yn y siroedd.

Rydyn ni'n cydnabod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol ar seilwaith newydd, a bod ganddynt bryderon am beilonau yn y dirwedd. Mae darparu'r seilwaith sydd ei angen arnom i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn galw am gydbwysedd gofalus. Rydyn ni'n canolbwyntio ar darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn agos at ein cynigion.


Nod Llywodraeth Cymru yw cyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy fel rhan o'r cynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd cynhyrchu ynni newydd yn cael ei leoli'n strategol er mwyn dal ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar.

O ganlyniad, bydd angen i'r grid trydan newid i gysylltu'r ffynonellau newydd hyn â chartrefi a busnesau. Yng Nghymru, cynigir ffermydd gwynt newydd. Fodd bynnag, nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i'w cysylltu. Er mwyn dileu'r defnydd o danwydd ffosil i gynhyrchu ynni, mae angen seilwaith newydd arnom ar frys. Bydd eich adborth chi yn ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau posibl yn sgil ein cynigion er mwyn i ni allu eu datblygu gan ymateb i anghenion lleol.


# Sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r heriau hyn



**Cynyddu cynhyrchiant adnewyddadwy, lleihau'r defnydd o danwydd ffosil**



**Isadeiledd grid newydd i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau**



**Gweithredu'n gyflym a chyflawni prosiectau yn effeithlon**

## Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth bywoliaeth pobl, ein tirweddau a'n bywyd gwyllt.

Mae cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a rhoi terfyn ar ddefnyddio tanwydd ffosil yn nod allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae pawb yn cytuno bod angen gweithredu ar frys i ddiogelu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r seilwaith sydd ei angen arnom i bontio i economi carbon isel hefyd yn gallu dod â llawer o fanteision.

Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd yn cefnogi'r defnydd o dechnolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau.

## Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn a chyflawni'r cyfleoedd hyn yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd mae ynni'n cael ei gynhyrchu a'i gysylltu.

Mae ynni adnewyddadwy yn cael ei ddatblygu mewn ardaloedd newydd a bydd angen i'r grid trydan newid er mwyn ei gysylltu â chartrefi a busnesau. Bydd prosiect Green GEN Cymru Tywi Teifi yn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn – gan gysylltu ynni glân yn gyflym ac yn effeithlon i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

# YR ANGEN AM NEWID

**Dywed strategaeth Cyngor Sir Gâr – Cyflawni Sero Net erbyn 2030:**

**“Mae angen ymateb i’r argyfwng hinsawdd ar bob lefel. Yng Ngheredigion mae angen i ni ymateb ar lefel sirol ac felly mae angen i sefydliadau ac unigolion o bob cwr o’r sir ddod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion a sicrhau bod newid sylweddol yn digwydd yn gyflym.”**

**Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru, Llywodraeth Cymru:**

**"Gyda’r argyfwng ynni byd-eang yn dwysáu, cynnydd sylweddol yng nghostau ynni domestig, a’r cloc yn tician wrth i ni lithro’n nes at drychineb newid hinsawdd, mae’r achos dros gynyddu’r ymdrechion i ddatblygu ynni adnewyddadwy yn gryfach nag erioed.”**

**Cynllun Gweithredu Carbon Net Cyngor Sir Caerfyrddin:**

**“Rydym wedi ymrwymo i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd ac rydym yn cydnabod bod gennym rôl bwysig i’w chwarae o ran lleihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr ein hunain ymhellach a darparu’r arweiniad i annog preswylwyr, busnesau a sefydliadau eraill i weithredu.”**

**Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru:**

**“Mae newid i system ynni ddigarbon fodern wedi’i seilio ar le, sy’n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, yn cyflwyno heriau sylweddol, ond mae ganddo’r potensial hefyd i gyflwyno manteision mawr, i’r amgylchedd ac i lesiant economaidd a chymdeithasol ein cymunedau.”**



# GWYNT AR Y TIR I GYMRU

Mae Bute Energy yn cynnig portffolio o Barciau Ynni i helpu Cymru i gyflawni ei huchelgeisiau sero net. Os cânt eu cymeradwyo, bydd ganddynt y potensial i gyflawni 25% o'r angen am ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Un o'r Parciau Ynni hyn yw Lan Fawr yn union i'r gogledd o Lanbedr Pont Steffan a fydd yn cysylltu â Green Gen Tywi Teifi.

Gyda hyd at 40 tyrbin gwynt, gallai Lan Fawr gynhyrchu hyd at 264MW o drydan, digon i bweru 174,000 - 251,000* o gartrefi bob blwyddyn. Mae gan gymaint â hyn o ynni gwyrdd y potensial i ddisodli 258,000 to 373,000 miliwn tunnell o $CO_2$ y flwyddyn.

Mae Lan Fawr wedi'i lleoli wrth ymyl ardal sydd wedi'i hasesu ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru fel ardal sydd ag adnoddau gwynt rhagorol, a all harneisio'r pŵer hwn i ddarparu ynni glân a gwyrdd i gartrefi a busnesau. Yng Nghymru, nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd â chartrefi a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol – er mwyn rhoi terfyn ar ddefnyddio tanwydd ffosil, mae angen seilwaith newydd arnom yn gyflym. Os na fyddwn yn uwchraddio'r rhwydwaith trydan yn gyflym, mae perygl y byddwn yn methu cyrraedd targedau adnewyddadwy ac yn methu â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

**Llywodraeth Cymru, Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru.**

**"Ni all fod unrhyw gamargraff: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, neu gynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy sydd ei angen i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn digwydd, heb sôn am darged newydd yn 2035."**







**potensial i ddadleoli**

**258-373**

**miliwn tunnell o $CO_2$**

trwy hyd oes weithredol y prosiect

hyd at

**264MW**

**o drydan**




* Cymerwyd defnydd cyfartalog cartrefi yn y DU o RenewableUK
**www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm**

# PROSIECT TYWI TEIFI

## Nid oes gan y rhwydwaith trydan presennol y capasiti i gysylltu'r parciau ynni arfaethedig. Mae Green GEN Cymru yn darparu cysylltiad newydd er mwyn gallu defnyddio'r ynni a gynhyrchir mewn cartrefi a busnesau, yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae angen i'r cysylltiad newydd fod â digon o gapasiti i gludo'r ynni o Lan Fawr, a datblygiadau gwynt posibl eraill ar y tir yng Nghymru, i'r Grid Cenedlaethol.


Rydyn ni wedi asesu opsiynau ar gyfer sut a ble i gysylltu'r Parciau Ynni newydd â'r rhwydwaith presennol, gan edrych ar opsiynau yn y Gogledd ac yn y De.

Bydd y cysylltiad 132kV newydd yn cysylltu ag is-orsaf 400kV newydd yn Llandyfaelog, ger Caerfyrddin. Mae'r is-orsaf yn cael ei datblygu gan National Grid Electricity Transmission a bydd hefyd yn cysylltu cynllun Green GEN Tywi Wysg a National Grid Electricity Distribution.

Bydd National Grid yn rhannu cynlluniau am ei gynigion yn ei ymgynghoriad ddechrau 2024, cyn cyflwyno cais cynllunio i Cyngor Sir Gâr yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**Ein cynnig yw:**

- **Llinell uwchben 132kV newydd i gysylltu Parc Ynni Lan Fawr yng ngorllewin Cymru ag is-orsaf newydd y National Grid yng Nghaerfyrddin**




# Nodi’r llwybr sy’n cael ei ffafrio

Gwnaethom hefyd asesu opsiynau ar gyfer llwybr y cysylltiad newydd. Wrth ddatblygu’r llwybr sy’n cael ei ffafrio, fe wnaethom ystyried Rheolau Holford, sy’n nodi egwyddorion ar gyfer pennu llwybr llinellau uwchben, gan gynnwys dewis cefndiroedd naturiol yn hytrach na chefndiroedd awyr, a defnyddio dyffrynnoedd agored gydag ardaloedd coediog yn hytrach nag ardaloedd o dir uwch.

Yr opsiynau gorau oedd cysylltu â phwynt ger Caerfyrddin, gyda llwybr drwy ddyffryn Teifi. Byddai hyn yn arwain at gyfanswm hyd llwybr o tua 52km.

Roedd effeithiau gweledol ac effeithiau ar y gymuned yn bwysig i ni pan wnaethom nodi’r llwybr hwn.

## Yn ein gwaith, gwnaethom asesu:



**Effeithiau gweledol**



**Effeithiau cymunedol**



**Yr amgylchedd a threftadaeth**



**Costau**



**Anghenion technegol**

**Eich adborth**

Gallwch ein helpu i ddeall unrhyw effeithiau a buddion posibl nad ydym efallai wedi’u hystyried yn ein gwaith hyd yma, ac i lywio ein gwaith wrth symud ymlaen. Gweler tudalen 27.

# PAM PEILONAU?

Mae peilonau'n nodwedd amlwg mewn sawl rhan o Gymru, lle mae'r dirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn chwarae rhan hollbwysig yn yr economi leol. Mae seilwaith trydanol a'r gweithgareddau hyn yn cydfodoli mewn amryw o leoliadau.

Mae ein cynnig yn golygu defnyddio peilonau delltog dur gydag uchder safonol o 27 metr. Os oes angen, mae gennym yr hyblygrwydd i gynyddu eu huchder drwy ychwanegu un neu fwy o estyniadau 3 metr, gan sicrhau eu bod yn gallu addasu i anghenion penodol yr ardal. Dyma'r peilonau delltwaith uchder byrraf sydd ar gael i ni i gysylltu faint o bŵer sy'n cael ei gynhyrchu.

Gelwir y darn o linellau pŵer rhwng y tyrau yn 'rhychwant,' a'r pellter rhyngddynt yw'r 'hyd rhychwant'. Fel arfer, mae'r hyd rhychwant tua 250 metr, ond gall newid yn ôl ffurf y tir neu lle mae angen i ni groesi rhwystrau, er enghraifft afon. Mewn rhai mannau, efallai y bydd angen tyrau talach arnom i ddelio â rhychwantau hirach, a bydd rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn ein hymgynghoriad nesaf, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2025.

Ar ôl ystyried yn ofalus, penderfynasom na all polion pren ddarparu'r capasiti trydanol angenrheidiol ar gyfer y parciau ynni arfaethedig. Defnyddir peilonau, dull profedig ar gyfer cysylltu ynni yn ddiogel, yn ddibynadwy ac yn effeithlon, yn cael eu cyflogi ledled y byd.

Oherwydd uchder a strwythur y peilonau, credwn y gallwn lwybro'r cysylltiad yn sensitif drwy Ddyffryn Teifi gan ddefnyddio coed a'r dirwedd i leihau'r effaith weledol.

### Pam ddim o dan y ddaear?

Mae ceblau o dan y ddaear fel arfer rhwng 6 a 10 gwaith yn ddrutach na llinellau uwchben. Mae angen mwy o dir ar eu cyfer hefyd ac maent yn achosi mwy o aflonyddu ar y tir yn ystod y cam adeiladu, o'u cymharu â pheilonau, sydd â'r potensial i greu effeithiau ecolegol ac archaeolegol mwy sylweddol.

Mae'r gwaith gosod o dan y ddaear yn golygu bod angen cloddio llawer o dir. Mewn rhai achosion, gall y gwaith cloddio fod hyd at 30m o led er mwyn gallu gosod y ceblau.

# EIN HYMGYNGHORIAD

## Mae ymgynghoriad Tywi Teifi ar agor rhwng **24 Ionawr a 6 Mawrth 2024**.

Dyma ein hymgynghoriad anstatudol cyntaf ar brosiect arfaethedig Tywi Teifi. Byddwn yn gwneud cais i asiantaeth Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) am ganiatâd o dan y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol. Bydd dau gam arall o ymgynghori cyn i'r cais am ganiatâd gael ei gyflwyno.

**Rydyn ni'n ymgynghori ar y canlynol:**

- Y llwybr rydyn ni'n ei ffafrio ar gyfer llinell uwchben drwy Geredigion a Sir Gaerfyrddin.

**Rydyn ni'n gofyn am adborth ar y canlynol:**

- Unrhyw ffactorau rydych chi'n teimlo nad ydynt wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma, gan gynnwys nodi'r llwybr sy'n cael ei ffafrio.
- Unrhyw ffactorau y dylem eu hystyried yn eich barn chi wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y llwybr sy'n cael ei ffafrio.

**Adborth**

Mae'r adborth a gawn gan gyrff arbenigol a chymunedau yn rhan allweddol o'r ffordd y byddwn yn datblygu'r prosiect. Byddwn yn defnyddio eich adborth i adolygu'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud hyd yma ac i lywio ein gwaith yn y dyfodol.

Rydyn ni'n annog unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect neu'r ardal i adael adborth gan ddefnyddio'r ffurflen adborth ar-lein **https://greengentowyteifi.com/cy/eich-adborth/** neu'r ffurflen adborth bapur.

**Sut i ddarparu adborth**

Mae sawl ffordd o roi adborth i ni:

ffurflen adborth ar-lein ar ein gwefan **www.greengentowyteifi.com**

anfon e-bost i: **info@greengentowyteifi.com**

anfon adborth ysgrifenedig atom: **FREEPOST GREEN GEN CYMRU TT**

Cofiwch anfon eich adborth atom erbyn **23:59, 6 Mawrth 2024**. Efallai na fydd ein tîm yn ystyried unrhyw adborth a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd yr holl adborth a gawn yn cael ei adolygu a'i ystyried yn ofalus wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau.

**Bydd cam nesaf ein hymgynghoriad yn 2025 yn cynnwys llwybro mwy manwl, a nodi lleoliadau ar gyfer peilonau a seilwaith ychwanegol.**

# CRONFA BUDD CYMUNEDOL BUTE ENERGY

## Bydd Grŵp Bute Energy yn buddsoddi miliynau o bunnoedd yn y cymunedau sydd agosaf at ein prosiectau.

Gallai Bute Energy fuddsoddi tua £800 miliwn yn y gronfa drwy gydol oes y prosiectau, gydag oddeutu £20 miliwn y flwyddyn i gymunedau, i gyd yn cael ei ariannu gan barciau ynni Bute os rhoddir caniatâd.

Am y tro cyntaf yn y diwydiant, bydd Bute yn talu £7,500 fesul Megawat (MW) o gapasiti wedi'i osod i'r gronfa a fydd wedyn yn cael ei rhannu â'r cymunedau sydd agosaf at y prosiectau. Mae'r gronfa budd cymunedol bellach wedi cael ei hymestyn i gynnwys y cymunedau sydd agosaf at brosiectau cysylltu Green GEN Cymru, gan gynnwys Tywi Teifi.

Bydd y gronfa gymunedol yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo lles y gymuned leol, drwy ddarparu cymorth ariannol ar gyfer mentrau sy'n gwella ansawdd bywyd cymunedau ac yn mynd i'r afael â phryderon cymdeithasol ac economaidd.

Bydd tîm buddion cymunedol pwrpasol Bute yn gweithio gyda chymunedau lleol i nodi ardaloedd, prosiectau, grwpiau a gwasanaethau a allai elwa o fuddsoddiad. Mae hyn yn golygu bod cyfle i bawb yn y gymuned ddweud eu dweud ynghylch ble yr hoffent weld yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi.


Mae'r gronfa eisoes yn cefnogi grwpiau, elusennau a gwasanaethau lleol. Mae'n cefnogi eu gwaith, yn meithrin prosiectau arloesol ar gyfer pobl leol, ac yn hwyluso cydweithio ar brosiectau gwaddol ar raddfa fawr, gyda'r nod o gadw cymaint â phosibl o'n buddsoddiad yng Nghymru er budd cymunedau lleol.

Os oes gennych chi syniad ble hoffech chi weld yr arian hwn yn cael ei fuddsoddi, rydyn ni'n eich annog i gysylltu drwy ein llinellau cysylltiadau cymunedol.













# Y LLWYBR RYDYN NI'N EI FFAFRIO

Rydyn ni wedi trefnu'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn bum rhan. Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn rhoi rhagor o wybodaeth am bob un o'r rhannau hyn, a'r hyn sydd wedi dylanwadu ar ein penderfyniadau hyd yma.

1
**Lan Fawr i Lanbedr Pont Steffan**

2
**Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni**

3
**Llanllwni i Alltwalis**

4
**Alltwalis i Rydargaeau**

5
**Rhydargaeeu i Landyfaelog**


### Ymgysylltu â thirfeddianwyr

Er ein bod yn gwneud pob ymdrech i effeithio cyn lleied ag y gallwn ni ar gymunedau, mae'r llwybr yn croesi ar hyd rhannau o dir amaethyddol.

Rydym yn deall y gall ein cynigion achosi pryderon penodol i dirfeddianwyr a meddianwyr. Mae ein tîm tiroedd ymroddedig mewn cysylltiad â thirfeddianwyr ac yn gweithio'n agos gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan ein cynigion.

Os oes gennych fuddiant mewn tir y mae ein cynigion yn effeithio arnynt a dyw ein tîm tiroedd ddim wedi cysylltu â chi eto, cysylltwch â ni.

## Map trosolwg



# ADRAN 1:
# LAN FAWR I LANBEDR PONT STEFFAN

Mae Dyffryn Teifi yn wledig ar y cyfan, gyda chymysgedd o gaeau a gwrychoedd trwchus yn amgáu tir pori. Mae'r afon yn torri dyffryn culach o fewn yr olygfa ehangach ac mae wedi'i chuddio o'r golwg. Mae llethrau'r dyffryn ehangach yn codi'n raddol i ucheldir cyfagos Mynyddoedd Cambria.

### Y llwybr a ffefrir

Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn dechrau ym Mharc Ynni arfaethedig Lan Fawr, sydd rhwng Llanfair Clydogau a Llyn y Gwaith wrth droed Mynyddoedd Cambria. Yna, mae'r llwybr yn mynd tua'r gorllewin tuag at Lanfair Clydogau, gan osgoi coetir hynafol yn ofalus. Mae'n mynd tua'r de-orllewin i'r dwyrain o afon Teifi, gan basio drwy bentrefi Pentre'r-felin, Cellan a Ram. Yn croesi'r A482, mae'n parhau i'r dwyrain o Barc-y-rhos.

Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio wedi cael ei ddewis gan ei fod yn lleihau'r effaith ar eiddo preswyl ac yn cadw mwy o bellter o Lanbedr Pont Steffan. Drwy aros ymhellach i ffwrdd o Ddyffryn Teifi, mae'r effaith weledol ar y dirwedd yn llai. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried agosrwydd y llwybr at Afon Teifi, Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.


Mae'r llwybr yn osgoi'r gorlifdir rhwng Llanbedr Pont Steffan a Chwm-ann yn ofalus - ardal amgylcheddol sensitif. Mae hefyd yn cynnwys llai o goetir hynafol o'i gymharu ag opsiynau eraill a ystyriwyd gennym, gan gadw nodweddion ecolegol. Yn bwysig, mae'r llwybr hwn ymhellach oddi wrth asedau treftadaeth allweddol, gan ganiatáu hyblygrwydd i osgoi adeiladau rhestredig a heneb gofrestredig yn ystod y cam dylunio manwl.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn mireinio dyluniad y cysylltiad ymhellach, gan ystyried y dirwedd a chwilio am ffyrdd pellach o liniaru'r effaith weledol ar y dirwedd. Ein nod yw cydbwyso anghenion y prosiect ond gan barchu sensitifrwydd yr amgylchedd cyfagos.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau llwybr y gwnaethom eu hystyried, a sut y gwnaethom benderfynu ar y llwybr a ffefrir, darllenwch Ddogfen Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

## Adran 1: Lan Fawr i Lanbedr Pont Steffan




Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 0100031673.

# ADRAN 2: LLANBEDR PONT STEFFAN I LANLLWNI

Mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn dilyn cwrs de-orllewinol o'r dwyrain o Barc-y-rhos. Yn croesi Afon Duar a'r B4337 i'r gorllewin o Dŷ-Mawr, mae'n parhau i'r gogledd o Aber-Giâr, lle mae'n croestorri â'r A485 a Nant Hor. Gan osgoi llethrau serth o amgylch copaon fel Mynydd Pencarreg a Mynydd Llanybydder yn fwriadol, mae'r llwybr yn mynd yn ei flaen i'r de orllewin ac yna tua'r de, gan basio i'r gorllewin o Fynydd Llanllwni, Ardal Tirwedd Arbennig ddynodedig.

Wrth i lethrau Dyffryn Teifi ehangach godi'n raddol tuag at Fynyddoedd Cambria, gan ffurfio llwyfandir rhwng dalgylchoedd yr afon, mae'r llwybr a ffafrir gennym yn mynd drwy rostir agored a choedwig conwydd helaeth. Yn fras, mae'n dilyn y ffin rhwng Dyffryn Teifi a Mynyddoedd Cambria, gan wehyddu drwy dirwedd wledig fryniog gyda gwrychoedd a lleiniau coetir.

O'r opsiynau roeddem wedi'u hystyried, rydyn ni yn fwriadol wedi dewis llwybr sy'n cyd-fynd â Rhan 1 i'r gogledd. Mae hyn yn cadw'r pellter mwyaf oddi wrth yr Ardal Tirwedd Arbennig ddynodedig ac yn lleihau'r effaith ar eiddo preswyl, yn enwedig o amgylch Tŷ Mawr.


I'r de, mae'r llwybr yn osgoi'r seilwaith presennol, gan gynnwys llinell uwchben bresennol ar bolion pren, ac yn osgoi Heneb Restredig ganoloesol Castell Nonni i'r gogledd o Lanllwni. Yn benodol, nid oes unrhyw adeiladau rhestredig ar y llwybr arfaethedig.

Mae'r newid o'r dwyrain i'r gorllewin yn cynnig cyfleoedd i lywio o amgylch cynefinoedd glaswelltir Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Caeau Blaen-bydernyn. Gan symud tua'r de, mae gweddill y llwybr yn cynnwys ardaloedd llai o gynefin pwysig, o'i gymharu ag opsiynau eraill a ystyriwyd gennym, yn unol â'n hymrwymiad i'r amgylchedd.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau llwybr y gwnaethom eu hystyried, a sut y gwnaethom benderfynu ar y llwybr a ffefrir, darllenwch Ddogfen Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

## Adran 2: Llanbedr Pont Steffan i Lanllwni




Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 0100031673.

# ADRAN 3: LLANLLWNI I ALLTWALIS

Yn Rhan 3, mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn mynd tua'r de orllewin, gan groesi'r B4336 a chroesi Afon Talog ac Afon Gilwydeth. Mae'n mynd i'r gorllewin o bentref New Inn, gan fynd heibio pentref Gwyddgrug a chroesi afon Gwyddgrug. Gan ddilyn cyfuchliniau naturiol y dirwedd, mae'n osgoi Coedwig Brechfa yn bwrpasol ac yn mynd tua'r de, gan groesi'r A485 cyn cyrraedd cyrion dwyreiniol Alltwalis.

Yn unol â Rhan 2, mae'r rhan hon o'r llwybr yn torri'n fyr drwy dirwedd Dyffryn Teifi a llethrau Mynyddoedd Cambria. Wrth gyrraedd bryniau godre Penfro a Chaerfyrddin, mae'r dirwedd yn ymagor yn banorama wledig sy'n cynnwys cyrsiau dŵr cul. Bydd gwrychoedd a lleiniau coetir yn help i hidlo golygfeydd o'r llwybr, wrth edrych o dir uwch i'r dwyrain.

Dewiswyd y llwybr i gadw draw o aneddiadau mawr, gan gadw cymaint â phosibl o fwlch rhyngddo â phentrefi New Inn, Gwyddgrug, a Phencader. Yn nodedig, mae'n cadw draw o bentref Alltwalis, gan gynnal llinell mor bell i'r dwyrain ag sy'n bosibl. Mae'r dewis bwriadol hwn yn ei leoli ymhellach o Ardal Tirwedd Arbennig ddynodedig Mynydd Llanllwni.


Drwy fabwysiadu aliniad gorllewinol ac yna ddwyreiniol, mae'r llwybr yn lleihau ei effaith ar y lleoliad a'r golygfeydd o Henebion Rhestredig ar dir uwch i'r dwyrain, yn benodol yng Nghoedwig Brechfa a Mynydd Llanllwni. Nod y dull hwn yw diogelu uniondeb gweledol y tirnodau hanesyddol hyn.

Yn hollbwysig, mae'r llwybr yn osgoi parsel sylweddol o goetir hynafol hanner ffordd ar hyd y rhan hon. Mae'r penderfyniad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelu ardaloedd sy'n sensitif yn ecolegol ar yr un pryd â diwallu anghenion y prosiect.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau llwybr y gwnaethom eu hystyried, a sut y gwnaethom benderfynu ar y llwybr a ffefrir, darllenwch Ddogfen Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

## Adran 3: Llanllwni i Alltwalis




Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 0100031673.

# ADRAN 4: ALLTWALIS I RHYDARGAEU

Mae'r rhan hon yn bennaf o fewn bryniau godre Penfro a Chaerfyrddin, a nodweddir gan ucheldiroedd tonnog, graddol a dyffrynnoedd coediog cysgodol gyda chaeau pori rheolaidd. Tir amaethyddol yw'r dirwedd yn bennaf, wedi'i amgáu gan amrywiaeth o wrychoedd a ffensys, gyda choetiroedd hwnt ac yma, yn enwedig ar y llethrau serth. Mae'r dirwedd wledig fryniog, a nodweddir gan nifer o gyrsiau dŵr, yn cynnig golygfeydd deniadol wedi'u siapio gan gribau a dyffrynnoedd.

Yn Rhan 4, mae'r llwybr rydyn ni'n ei ffafrio yn parhau tua'r de gan gynnal aliniad dwyreiniol o'i gymharu â'r A485. Gan fynd i mewn i ddyffryn a chroesi Afon Gwili, mae wedyn yn mynd heibio cyrion dwyreiniol Pontarsais. Gan barhau ar lwybr deheuol, mae'n croesi Nant Corrwg ac yn mynd i'r dwyrain o Rydargaeau.

Gan lywio drwy dirwedd wledig â chyrsiau dŵr cul, yn cynnwys y tir o amgylch Afon Gwili, mae'r llwybr yn parhau mewn cytgord â'r dirwedd naturiol. Bydd gwrychoedd a lleiniau coetir yn helpu i hidlo golygfeydd.


Yn hollbwysig, mae'r llwybr arfaethedig yn cadw draw o aneddiadau mawr, gan osgoi pen gogleddol Rhydargaeau a phentref Pontarsais i'r gorllewin. Mae'r lleoli hyn hefyd yn fwriadol i osgoi seilwaith arall, yn cynnwys llinell uwchben bresennol ar bolion pren yn hanner orllewinol y rhan hon.

Mae'r ffactorau sy'n wahanol yn y rhan hon yn cynnwys ôl troed daearyddol llai o gynefinoedd pwysig, o'i gymharu â'r opsiynau eraill a ystyriwyd gennym. Ar ben hynny, mae'r llwybr yn croesi ardal fwy cyfyng o ddyddodion mwynau a pharthau llifogydd risg uchel, o'i gymharu ag opsiynau eraill. Yn benodol, mae'n fwriadol yn osgoi llwybr cwrs dŵr Nant Boncath i'r gorllewin, gan sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar lif naturiol y dŵr yn y rhanbarth hwn.

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau llwybr y gwnaethom eu hystyried, a sut y gwnaethom benderfynu ar y llwybr a ffefrir, darllenwch Ddogfen Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

## Adran 4 : Alltwalis i Rydargaeau




Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 0100031673.

# ADRAN 5: RHYDARGAEAU I LANDYFAELOG

**Rhagor o wybodaeth**

I gael gwybodaeth fanylach am yr opsiynau llwybr y gwnaethom eu hystyried, a sut y gwnaethom benderfynu ar y llwybr a ffefrir, darllenwch Ddogfen Llwybr ac Ymgynghori ar ein gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

Yn Rhan 5, mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn mynd tua'r de ar draws tir bryniog, gan wyro tua'r de-ddwyrain rhwng Hafod a Helygen-Las, a chroesi Nant Penycnwc. Yn parhau tua'r de, mae'n symud i'r de-orllewin, i'r dwyrain o Fryn Myrddin cyn croesi'r A40 ac afon Tywi.

Mae'r llwybr yn cynnal ei lwybr de orllewinol, gan groesi'r B4300, ac ymlaen i Afon Pibwr a'r A48. Wrth fynd yn ei flaen, mae'r llwybr yn mynd i'r dwyrain o Gwmffrwd, yn croesi'r B4309, yn parhau i'r dwyrain o Idole, ac i'r gorllewin o Bancycapel, gan fynd tua'r de yn y pen draw tuag at ardal lleoliad is-orsaf newydd Caerfyrddin.

Mae'r rhan hon yn croesi tirwedd Dyffryn Tywi, dyffryn afon iseldir sydd â gorlifdir llydan ond cyfyngedig, sydd â phatrwm rheolaidd o gaeau wedi'u hamgáu gan wrychoedd, ynghyd â choed perthi yma ac acw. Mae'r dirwedd wledig yn cynnwys coetir ac mae'r A40 yn nodwedd weledol amlwg. Gan symud tua'r de, mae'r llwybr yn mynd i ardal tirwedd aberoedd Taf, Tywi a Gwendraeth, a nodweddir gan fflatiau llaid a thywod helaeth.

Mae'r llwybr rydyn ni wedi'i ddewis yn cynnal llwybr drwy dirwedd wledig fryniog gyda choetir a chaeau a gwrychoedd o'u hamgylch, yn cynnwys dyffryn gwastad afon Tywi a choridorau cyfathrebu sy'n cysylltu i'r dwyrain o Gaerfyrddin. Wedi'i leoli'n fwriadol i'r dwyrain, mae'n cynnal y pellter mwyaf posibl o Gaerfyrddin, anheddiad mwyaf y rhanbarth, a sawl anheddiad llai, gan gynnwys Rhydargaeau, Bronwydd Arms, Peniel, Abergwili, Llangynnwr, a Chwmffrwd. Mae'r aliniad strategol hwn yn lleihau'r rhyngweithio ag eiddo preswyl ar hyd yr ochr ddwyreiniol, ffactor allweddol wrth ddewis llwybrau.


Mae cynllunio meddylgar yn sicrhau bod y llwybr yn osgoi cyfleusterau hamdden amrywiol, yn cynnwys y pentref gwyliau yn Llangynnwr, cyfleusterau chwaraeon yn Abergwili, ac atyniadau eraill i ymwelwyr yng Nghaerfyrddin. Mae'n cadw cryn bellter o Lys yr Esgob, Abergwili, a Gardd a Pharc Hanesyddol Cofrestredig i'r gorllewin. Ar ben hynny, mae'r llwybr yn cadw'n glir o seilwaith presennol, yn cynnwys llinell uwchben ar bolion pren yn hanner gorllewinol y rhan hon.

Fodd bynnag, mae'n agos iawn at Fryngaer Bryn Myrddin, Heneb Restredig sydd wedi'i lleoli ar dir uchel i'r gorllewin o bentref Felin-wen. Yn ystod y cam dylunio manwl, bydd mesurau lliniaru addas yn cael eu hystyried i leihau'r effaith ar yr ased hanesyddol hwn.


Gan gydnabod ei arwyddocâd ecolegol, mae'r llwybr sy'n cael ei ffafrio yn darparu opsiynau i fynd o amgylch Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Afon Tywi, sydd wedi'i ddynodi am ei gynefinoedd afon a gorlifdir. Mae hefyd yn osgoi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Nant Allt Penycoed, sy'n cael ei gydnabod am ffosiliau a gwaddodion o ddiddordeb daearegol. Byddwn yn parhau i ystyried y nodweddion hyn yn ofalus wrth i ni ddatblygu dyluniad manwl ar gyfer y cysylltiad.

Wrth groesi ardaloedd o goetir, mae'r llwybr yn cynnig mwy o gyfleoedd i osgoi neu groesi darnau llai o goetir hynafol, yn unol â'n hymrwymiad i'r amgylchedd.

## Adran 5: Rhydargaeeu i Landyfaelog (adran ogleddol)




## Adran 5: Rhydargaeeu i Landyfaelog (adran y de)



Crown copyright and database rights 2023 Ordnance Survey 0100031673.

# Y BROSES GYNLLUNIO AC AMSERLEN Y PROSIECT

Mae prosiect Tywi Teifi yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw mai llinell drydan uwchben 132kV yw'r prosiect sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig. Yn yr achos hwn, yr orsaf gynhyrchu ddatganoledig yw Parc Ynni Lan Fawr a gynigir gan Bute Energy.

Gallwch ddarllen mwy am y prosiect ar wefan Llywodraeth Cymru: **https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/datblygiadau-o-arwyddocad-cenedlaethol-dns-canllaw-gweithdrefnol-2019.pdf**

Bydd y cais, felly, yn cael ei gyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) i'w adolygu, cyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru.

Fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae'r prosiect yn rhwym wrth lawer o ofynion, gan gynnwys asesiad amgylcheddol trylwyr ac ymgynghoriad cyhoeddus â'r gymuned a rhanddeiliaid.

**Amserlen y prosiect:**

**2024** – Ionawr – Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf

**2025** – Ail ymgynghoriad cyhoeddus

**2025** – Trydydd ymgynghoriad cyhoeddus (statudol)

**2026** – Cyflwyno'r cais i PEDW i'w adolygu

**2026** – Y Gaeaf – y cynharaf y byddai'r cais yn cael ei benderfynu

**2027** – Gwaith adeiladu'n dechrau os yw'r prosiect yn cael cydsyniad

**2028** – Prosiect Tywi Teifi yn weithredol

# DIGWYDDIADAU YMGYNGHORI

Rydym yn cynnal digwyddiadau yn y cymunedau sydd agosaf at y llwybr a ffafrir lle gallwch gwrdd ag aelodau o dîm y prosiect a chael rhagor o wybodaeth am y cynigion.

Mae ein holl ddogfennau ategol ar gael i'w gweld ar-lein yn **www.greengentowyteifi.com**

| Tabl digwyddiadau: | | |
|---|---|---|
| **Neuadd Pentref Eglwys Llanllwni**<br>Llanllwni, Pencader, SA39 9DR | 07.02.2024 | 14:00-19:00 |
| **Canolfan Gymunedol Alltwalis**<br>Yr Hen Ysgol, Alltwalis, Caerfyrddin, SA32 7EB | 08.02.2024 | 14:00-19:00 |
| **Neuadd Dinesig St Peter**<br>1 Nott Square, Caerfyrddin, SA31 1PG | 09.02.2024 | 14:00-19:00 |
| **Neuadd Mileniwm Cellan**<br>Tre Cynon, Llanbedr, SA48 8HU | 22.02.2024 | 14:00-19:00 |
| **Eglwys y Bedyddwyr**<br>Glanduar, Llanybydder, SA40 9RS | 23.02.2024 | 14:00-19:00 |
| **Ysgol Gymuned Peniel**<br>Peniel, Caerfyrddin, SA32 7AB | 24.02.2024 | 10:00-14:00 |

Gallwch ddarllen mwy am y prosiect trwy sganio'r cod QR hwn:

**Supporting documents**

Rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol ar gyfer yr ymgynghoriad. Gellir eu gweld yn ac maent ar gael drwy gysylltu â'n tîm prosiect.

- Strategaeth Cysylltiad Grid
- Dogfen Llwybro ac Ymgynghori
- Dogfen Dull Llwybro



GREEN GEN CYMRU

www.greengentowyteifi.com

info@greengentowyteifi.com

0800 915 2496

FREEPOST Green GEN Cymru TT

Rydym wedi defnyddio ffynonellau cynaliadwy i gynhyrchu'r llyfryn hwn.